

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 30AIN O EBRILL 2018 YN FESTRI CAPEL-Y-PENTRE, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cynghorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Stanley Williams, Jill Evans, Elfed Williams, Philip Williams, Geraint Jones, Hywel Davies, Iwan Jones, Falmai Evans, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch ynghyd a'r Clerc.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Fawrth 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd diolchiadau am gefnogaeth arian y Cyngor oddi wrth y mudiadau canlynol:-

1. Cart-y-Plwyf.
2. Mabolgampau Pantpastynog a'r Cylch.
3. Clwb-y-Pentan.
4. Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr.

5. Siôn Ynyr Jones ar ran Swyddfa Leol Urdd Gobaith Cymru.

B. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych trwy alwad ffôn nad oes yna ddyfodol i'r berchnogaeth safle'r tir y Cyngor Sir wrth Brÿn Glas yn Sarongân nod oes yr hawl i roi gwastraff ffyrdd ar y safle ymhellach.

C. Derbyniwyd llythyr gan Y Brîf Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru ddim yn cyfrannu £250,000.00 (50% o'r gost) tuag at yr "School Beat Project" o'r flwyddyn ariannol 2019/20 ymlaen. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gysylltu â'r Aelodau'r Cynulliad Darren Millar a Llÿr Gruffydd ynghyd ac Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am gefnogaeth i beidio â thorri'r gyllideb.

5. SEDD WAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd cadarnhad nid oedd unrhyw gais wedi ei dderyn gan y Swyddog Canlyniadau am isetholiad i lenwi'r sedd wag y Cyngor, felly mae yna hysbyseb newydd yn bodoli i lenwi'r sedd wag trwy gyfethol.

6. WEFAN Y CYNGOR.

Penderfynwyd gan fod yr hysbysebion yn cynnwys cofnodion y Cyngor i fod yn ddwyieithog ar y Wefan, penderfynwyd trafod cyflogaeth cyfieithiad yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

7. PWYLLGOR LLEOL EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020.

Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd yn dilyn cyfarfod cyhoeddus yn Festri Capel-y-Pentref yn Llanrhaeadr ar nos Fercher 25ain o Ebrill 2018 mi sefydlwyd pwyllgor lleol dros bentrefi Llanrhaeadr, Prion, Peniel a Saron o'r Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 a bydd yn gyfrifol am godi'r targed lleol.

8. POLISI IAITH Y CYNGOR.

Gadawyd y mater ar y bwrdd.

9. PLWM DINBYCH.

Derbyniwyd adroddiad y Cynghorwyr Geraint Jones a Philip Williams yn dilyn sioe Blwm Dinbych yn ddiweddar ynglŷn ar statws Plwm Dinbych a gofynnir i'r cymunedau lleol plannu coed plwm Dinbych. Cytunodd y Cynghorwyr Geraint Jones a Philip Williams chael prisiau'r coed plwm Dinbych.

10. GWASTRAFF PLASTIC YN Y GYMUNED.

Derbyniwyd adroddiad oddi wrth y Cynghorydd Elfed Williams ynglŷn â chaniau a brws dannedd di-blastic i gymorth i leihau'r gwastraff plastig yn y gymuned ac awgrymwyd i brynu caniau a brws dannedd i'r disgyblion Ysgolion Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr a Pantpastynog, Prion. Cytunodd Cynghorydd Williams i holi am brisiau'r nwyddau a nifer o ddisgyblion y ddwy Ysgol.

11. SGIPIADAU CYMUNEDOL.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd peidio cael y sgipiadau cymunedol yn ystod gwyliau'r mis Mai Ysgolion oherwydd prinder amser i'w hysbysu a hefyd bod yr wythnos gwyliau yn wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2018.

12. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £15,022.84.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r precept am y flwyddyn 2018/19 - £3,984.00.

13. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cais 23/2018/0227 - Codi strwythur seremoni ffrâm dderw yn Springs Spa, Llanrhaeadr Hall, Llanrhaeadr - penderfynwyd rhoi'r sylw fod y lleoliad y strwythur mewn llinell gyda'r ffenestr breswyl gyferbyn.

B. Cais 23/2018/0268 - Datblygu 0.244ha o dir trwy godi tri annedd (cais amlinellol gyda'r holl faterion a gadwyd yn ôl) ar dir yn Llais Afon, Llanrhaeadr - Penderfynwyd ar y sylwadau bod y cais yn erbyn polisi Cyngor Sir Ddinbych fod y cais cynllunio ddim am dai fforddiadwy yn unig.

C. Cais cynllunio diwygiedig/wybodaeth ychwanegol ar gais cynllunio 23/2017/1218 yn Brŷn Morfydd. Llanrhaeadr - Penderfynwyd y Cadeirydd gwneud sylwadau'r Cyngor ar ol derbyn gwybodaeth ychwanegol.

14. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwybodaeth o'r Sesiwn Hyfforddiant Cynllunio - ddydd Iau 24ain Mai 2018 am 6.00 p.m. yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych, Caledfryn, Dinbych.

B. Derbyniwyd gwybodaeth mi fydd Julie Jones, Aelod y Cynulliad, yn trafod Band Eang yn yr Hwb, Dinbych ar ddydd Iau 3ydd o Fai 2018 am 11.00 y bore.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

15. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd gwybodaeth fod perchennog safle carafanau Cae'r Mynydd, Saron wedi torri'r amodau cais cynllunio diweddar a phenderfynwyd y Clerc tynnu sylw Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.

16. MATERION BRYYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH
LEOL 1972.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd ynglŷn ar gyflwr y ffyrdd canlynol:-

- A: Ffordd heibio'r big ym Mhrion.
- B. Allt rhwng Prion a Saron heibio'r Fron.
- C. Ffordd Drws-y-Buddel yn Saron.

17. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Cyfarfod Blynyddol i gychwyn am 7.00 o'r gloch ar gyfarfod misol yn dilyn ar nos Lun 21ain o Fai 2018 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion.